




Cyfres Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru

Mynediad 1 – Lefel 3

Pecyn Cychwynnol



Trosolwg o'r Gyfres SHC

- Mae Cyfres o Gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru CBAC wedi'i dylunio i asesu'r amrywiaeth o sgiliau mae dysgwyr eu hangen ar gyfer dysgu, bywyd a chyflogaeth llwyddiannus.
- Maent yn cynnig un ysgol o gynnydd, sy'n cwmpasu chwe lefel ac yn cynnwys cymwysterau yn y canlynol:



Cymhwyso Rhif



Cyfathrebu




Llythrennedd
Digidol



Cyflogadwyedd

- Bwriad y cymwysterau Sgiliau Hanfodol yw eu defnyddio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Maent yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r sgiliau hyn yn ymarferol, yn enwedig gallu'r dysgwyr i drosglwyddo eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth rhwng cyd-destunau a phwrpasau.

Yn gryno ...



- Mae Cymhwyso Rhif, Cyfathrebu, Llythrennedd Digidol a Sgiliau Cyflogadwyedd i gyd yn gymwysterau arunig ôl-16 (ac ôl-14 mewn rhai achosion).
- Mae'r gyfres o gymwysterau SHC, a'r gofynion asesu yn y rhan fwyaf o achosion, yn gyffredin ar draws cyrff dyfarnu Sgiliau Hanfodol Cymru.
- Yr unig eithriadau i hyn yw Lefel Mynediad yr SHC mewn Cymhwyso Rhif chymwysterau Cyfathrebu, a asesir trwy Asesiad dan Reolaeth yn unig.
- Mae pob agwedd yr asesiad yn cael ei hasesu ar sail Llwyddo/Methu.

Strwythur y cymhwyster


- Mae Cyfanswm yr Amser Cymhwyso ar gyfer pob lefel cymhwyster (Mynediad 1 – Lefel 3) fel a ganlyn:

Lefel Cymhwyster (pob cymhwyster)	CAC
Mynediad 1, 2 &3	60
Lefel 1	60
Lefel 2	70
Lefel 3	80




- Ac eithrio cymwysterau Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu, mae holl gymwysterau Sgiliau Hanfodol yn cynnwys asesiad crynodol **dwy-ran** sy'n cynnwys:
 - tasg dan reolaeth
 - elfen gadarnhaol (prawf neu drafodaeth strwythuredig).
- Mae pob cymhwyster yn gofyn am gyflawni **dwy** ran yr asesiad crynodol yn llwyddiannus ar yr **un** lefel; nid oes ardystio 'uned' neu rannol ar gael.

Mae gwybodaeth fanwl am gynnwys y pwnc, ynghyd â'r amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth y disgwylir ei haddysgu a'i dysgu ar bob lefel, wedi'i nodi yng nghanllaw y gyfres SHC o Gymwysterau.

M A P S H C




Dogfennau Allweddol ar Wefan SHC



[Cyfres Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru \(cbac.co.uk\)](http://cbac.co.uk)

Dogfennau Allweddol ar Porth CBAC

Bydd gan ganolfannau cofrestredig fynediad i Porth CBAC.



The screenshot shows the WJEC CBAC Portal homepage. At the top, there is a navigation bar with 'All Services' and a dropdown arrow, the word 'PORTAL' in blue, a UK flag, a clock icon, and logos for 'wjec cbac' and 'eduqas'. The main content area has a 'Welcome to Portal' heading followed by a sub-header stating it's the central location for registered centres. A prominent blue-bordered box contains the 'Question Paper Download on the Day' announcement, explaining that this feature is only for Exams Officers or Admin Accounts and providing a 'CLICK HERE' button. To the right of this box is an illustration of a person with headphones and a laptop. Below the announcement box is a 'Key Information' section with a list of links: 'JCQ Regulations on timings etc.', 'WJEC Exam requirements booklet || Eduqas Exam requirements booklet', 'IAMIS FAQ & Deadlines', 'WJEC 2024 Exam Timetable || Eduqas 2024 Exam Timetable', 'Special considerations', 'Access Arrangements Online Guide', and 'Summer 2024 - Unitised WJEC (regulated by Qualifications Wales) A Level qualification rules'. A small disclaimer at the bottom states: 'This is a private system for use by authorised persons only. Unauthorised access is a criminal offence under the Computer Misuse Act 1990. All offenders are liable to prosecution. All access to this system is logged'.

Welcome to Portal

WJEC's Portal is the central location for registered centres to access WJEC services, including:

Question Paper Download on the Day

We have made changes to how Question Papers and Resources are accessed on the day of exams. This function is ONLY available to **Exams Officers** or **Admin Accounts** via

[All Services > Key Information > Today's Question Papers](#)

[CLICK HERE](#)

Key Information


- JCQ Regulations on timings etc.
- **WJEC** Exam requirements booklet || **Eduqas** Exam requirements booklet
- IAMIS FAQ & Deadlines
- **WJEC** 2024 Exam Timetable || **Eduqas** 2024 Exam Timetable
- Special considerations
- Access Arrangements Online Guide
- Summer 2024 - Unitised WJEC (regulated by Qualifications Wales) A Level qualification rules

This is a private system for use by authorised persons only. Unauthorised access is a criminal offence under the Computer Misuse Act 1990. All offenders are liable to prosecution. All access to this system is logged

Yma, gall canolfannau gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau allweddol fel hyfforddiant, canllawiau a deunyddiau enghreifftiol.

[Gwefan Ddiogel CBAC](#)

Pwyntiau allweddol i'w hystyried



- Dylai canolfannau sy'n dymuno cynnig y cymwysterau hyn ac nad ydynt wedi'u cymeradwyo eto, gysylltu â'n Hadran Cefnogi Canolfannau drwy canolfannau@cbac.co.uk i gael ffurflen gais a gwybodaeth am ofynion cymeradwyo canolfannau.
- Os ydych eisoed yn Ganolfan wedi'i chymeradwyo ond yn dymuno cynnig cymwysterau SHC, cysylltwch ag essentialskills@wjec.co.uk am Ffurflen Cymeradwyo Cymwysterau.
- Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau'r rhaglen er mwyn nodi math a lefel priodol y cymhwyster. Noder y disgwylir i holl ddarparwyr SHC ddefnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST).
- Mae'n rhaid cwblhau'r broses o addysgu, dysgu, datblygu ac ymarfer sgiliau cyn ymgymryd â'r Tasgau dan Reolaeth.

Termau Allweddol

Term Allweddol	Diffiniad
CBAC Cyswllt	Dyma ein llwyfan ardystio ar y we sy'n caniatáu i ganolfannau gyflwyno cofrestriadau ar sail 'dreigl'. Gellir cyflwyno unrhyw nifer o geisiadau ymrestru ar unrhyw adeg drwy gydol y flwyddyn galendr.
Porth CBAC	Dyma ein gwefan ddiogel a ddefnyddir i rannu gwasanaethau a dogfennau ategol pellach i ganolfannau nad ydynt ar y wefan gyhoeddus.
Cyfanswm Amser Cymhwyso	Mae Cyfanswm Amser Cymhwyso yn rhoi amcangyfrif o gyfanswm yr amser y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol i ddysgwyr ennill y cymhwyster a phrofi hynny.
Safoni	Mae safoni (a elwir weithiau'n feincnodi neu gymedroli) yn rhan bwysig o broses Sicrhau Ansawdd Mewnol. Mae safoni yn sicrhau bod pob aseswr yn gwneud penderfyniadau dilys yn gyson, mae aseswyr yn gwneud yr un penderfyniad ar yr un sail dystiolaeth, a c asesir pob ymgeisydd yn deg.
Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol	Mae Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol yn chwarae rôl allweddol wrth roi prosesau sicrhau ansawdd ar waith mewn canolfan a gweithredu fel 'gwarantwyr' bod safonau'n cael eu bodloni a'u cynnal. Y Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol neu'r tîm sicrhau ansawdd mewnol mewn canolfannau mwy o faint, sy'n gyfrifol am sicrhau dilysrwydd asesuadau mewnol a pha mor ddibynadwy yw barn aseswyr. Nodwch na all unrhyw unigolyn weithredu fel aseswr a Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol ar gyfer yr un grŵp o ymgeiswyr.
Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol	Sicrhau ansawdd allanol (y cyfeirir ati weithiau fel gwiriad allanol) yw'r broses a ddefnyddir gan CBAC i gadarnhau bod penderfyniadau asesu mewn canolfannau yn; cael eu gwneud gan aseswyr cymwys, yn gynnyrch ymarfer asesu dibynadwy a theg, wedi'u cofnodi'n gywir ac yn briodol, ac yn unol â'r gofynion a gyhoeddwyd ym manyleb y cymhwyster. Mae sicrhau ansawdd allanol yn rhoi cyfle pwysig i ganolfannau geisio cymorth ac arweiniad ac i Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol ddiweddarau staff y ganolfan ar yr arfer gorau sy'n dod i'r amlwg o ran asesu a sicrhau ansawdd mewnol.
Tasg dan Reolaeth	Mae'r rhain yn mesur y sgiliau pwnc-benodol ac mae'n rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu defnyddio sgiliau mewn modd cyfannol. Maen nhw'n asesuadau crynodynol byw sydd ar gael trwy Porth CBAC.
Trafodaeth Strwythuredig	Pwrpas y drafodaeth strwythuredig yw cadarnhau gwybodaeth a sgiliau sylfaenol y dysgwyr. Gellir cynnal y rhain un i un neu mewn grwpiau bach o bedwar. Maen nhw'n cael eu hasesu'n fewnol.
Prawf Cadarnhau	Mae hwn yn brawf aml-ddewis i gadarnhau gwybodaeth a sgiliau sylfaenol y dysgwyr. Maen nhw'n cael eu cynnal trwy ein llwyfan ar-lein, a'u marcio'n allanol.